# PECYN GWIRFODDOLWR

## Cynorthwy-ydd Gwirfoddol y Parth Chwaraeon

### Y Tîm:

Mae ein Rhaglen Wyliau Parth Chwaraeon yn boblogaidd iawn, ac mae llawer iawn yn cymryd rhan ynddi. Mae gennym dîm profiadol o Hyfforddwyr Arweiniol a Chynorthwywyr sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon hwyliog ac amrywiol bob dydd, yn ystod gwyliau'r ysgol. Cynhelir y Parth Chwaraeon mewn llond llaw o'n safleoedd (Hamdden Rhuthun, Hamdden Dinbych a Hamdden y Rhyl) a gallwn gynnig cyfleoedd gwirfoddoli ar y 3 safle.

### Tasgau Allweddol:

Mae'r tasgau arferol y gofynnir i chi ymgymryd â nhw wedi'u rhestru isod, a chewch hyfforddiant lawn ar bob un:

- Helpu cyfranogwyr i ddeall cyfarwyddiadau a gweithgareddau.
- Gwneud yn siŵr bod cyfranogwyr yn hapus ac yn cymryd rhan.
- Helpu i ddynodi plant a allai fod angen ychydig o gymorth ychwanegol, a'u cefnogi.
- Helpu i osod pethau i fyny cyn y sesiwn, yn ystod y sesiwn a chlirio ar ei hôl.
- Cymryd cofrestrau a chofnodi gwobrau.

### Gofynion:

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol, rydym yn chwilio am bobl gyfeillgar, hawdd mynd atynt sy'n caru chwaraeon. Os oes gennych chi sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu rhagorol ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm, byddwch yn ffitio i mewn yn syth. Oherwydd natur y swydd mae'n rhaid i'n holl wirfoddolwyr gytuno i gael gwiriad DBS gan HSDd.

### Oriau:

Mae ein sesiynau i gyd yn ystod gwyliau'r ysgol ac maent yn ddyddiau llawn. Rydym yn gwahodd ein holl wirfoddolwyr i roi gwybod pa bryd y byddant ar gael ychydig wythnosau ymlaen llaw er mwyn gallu eu clustnodi i'r sesiynau sydd fwyaf addas iddyn nhw. Mae hanner diwrnod a diwrnod llawn yn bosibl.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?:

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, ewch i'n gwefan www.hamddensirddinbych.co.uk i lenwi ein ffurflen fer. Ar ôl i chi wneud hynny byddwn yn eich gwahodd i ddod am sgwrs am y rôl.

***This document is also available in English***